Hawdd ei Ddeall

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group

# Meddyginiaethau gwrthseicotig mewn dementia

## Cwestiynau i'w gofyn am eich meddyginiaethau gwrthseicotig - cyngor i bobl sy'n byw gyda dementia



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan** a **Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cwestiynau i'w gofyn i'ch presgripsiynydd am feddyginiaethau gwrthseicotig**'.

Awst 2024

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae meddyginiaeth yn aml yn cael ei bresgripsiynu gan feddyg, ond mae gweithwyr gofal iechyd eraill fel rhai nyrsys ac mae fferyllwyr yn gallu gwneud hyn hefyd. Yn y daflen yma rydyn ni yn galw'r bobl yma yn **bresgripsiynydd**.



Mae'r ddogfen yma am y cwestiynau rydych chi'n gallu eu gofyn i'ch **presgripsiynydd** am y meddyginiaethau rydych chi'n eu cael.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan**:

**Gwefan:** cttcg.gig.cymru

**E-bost:** awttc@wales.nhs.uk

**Ffôn:** 029 218 26900

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**

# Cynnwys

**Dementia a meddyginiaethau gwrthseicotig................4**

**Cwestiynau rydych chi efallai eisiau eu gofyn i'ch presgripsiynydd ........................................................................6**

# Dementia a meddyginiaethau gwrthseicotig



Mae **dementia** yn gyflwr sy'n effeithio ar yr ymennydd. Mae pobl â **dementia** yn cael problemau gyda'r cof ac maen nhw'n gallu bod yn ddryslyd. Fel arfer mae'n effeithio ar bobl hŷn.



Os ydych chi'n byw gyda **dementia**, efallai y byddwch chi weithiau'n teimlo'n ofnus neu'n gythryblus.



Weithiau mae pobl yn gweiddi, cerdded o gwmpas yn aml, neu'n gofyn llawer o gwestiynau.



Mae'n well ceisio delio â'r symptomau yma heb ddefnyddio meddyginiaethau, os ydych chi'n gallu.



Mae **seicosis** yn meddwl profi pethau fel:

- Clywed lleisiau neu weld pethau sydd ddim yno. Mae hyn yn cael ei alw yn **rhithweledigaeth**.
- Credu bod rhywbeth yn real pan nad ydy e yn real. Mae hyn yn cael ei alw yn **lledrith**.



Weithiau mae'r symptomau yma yn gallu gwneud i bobl frifo eu hunain, neu frifo rhywun arall.



Efallai bydd rhywun yn cael meddyginiaeth o'r enw meddyginiaeth gwrthseicotig i helpu i stopio'r symptomau yma.



Mae'n bwysig iawn eich bod chi, a'ch teulu neu'ch gofalwyr, yn cymryd rhan yn y siarad am feddyginiaethau gwrthseicotig.

# Cwestiynau rydych chi efallai eisiau eu gofyn i'ch presgripsiynydd




- Pam ydw i'n cael meddyginiaeth gwrthseicotig? Beth fydd yn helpu?



- Ydych chi angen gwybod unrhyw beth amdana'i a beth sy'n fy ngwylltio?

- Ydy e'n gallu bod yn rheswm meddygol? Er enghraifft: poen, haint neu rywbeth arall?



- Oes yna driniaethau eraill rydyn ni'n gallu rhoi cynnig arnyn nhw sydd ddim yn feddyginiaethau?



- Oes yna unrhyw **sgîl-effeithiau** i'r feddyginiaeth gwrthseicotig a beth ddylwn i ei wneud?

Un o'r **sgîl-effeithiau** ydy pan fyddwch chi'n cymryd meddyginiaeth ac mae'n cael effaith nad ydych chi ei eisiau.



- Sut fydda i'n gwybod os ydy'r feddyginiaeth gwrthseicotig yn gweithio?




- Pryd fydd fy **mhresgripsiynydd** yn edrych i weld os ydy'r feddyginiaeth gwrthseicotig yn gweithio i mi?

- Oes yna unrhyw gynlluniau i stopio'r feddyginiaeth gwrthseicotig?



- Ydy fy nheulu neu ofalwyr yn gallu gwneud unrhyw beth i fy nghefnogi?